

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Y Gyllideb Ddrafft 2011-12 Ionawr 2011

Bwriedir i'r papur hwn gael ei ddefnyddio i lywio gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12 ac i lywio'r ddadl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2011. Mae'n rhoi trosolwg ar gynlluniau gwariant ar gyfer 2011-12, yn edrych sut y mae'r rhain yn cymharu â 2010-11 ac yn edrych ar newidiadau cronol dros gyfnod y gyllideb (hyd at 2013-14).

Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [MembersLibrary@wales.gov.uk](mailto:MembersLibrary@wales.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Gyllideb Ddrafft 2011-12

Ionawr 2011

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 11/002



Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau



## Crynodeb

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg ar y cynigion a gynhwysir o fewn Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12, a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Tachwedd 2010.

Er bod y Gyllideb Ddrafft 2011-12 yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 a dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-13 a 2013-14, mae'r papur hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddyraniadau 2011-12, gan fod cynlluniau dangosol yn debygol o newid yn sylweddol. Hefyd dangosir newidiadau cronol dros gyfnod llawn y gyllideb.

Mae [Adran 1](#) yn ymdrin ag Adolygiad o Wariant diweddar Llywodraeth y DU 2010, sy'n penderfynu lefel bloc Cymru ar gyfer y blynyddoedd 2011-12 i 2014-15, ac sydd felly'n gefndir i Gyllideb Ddrafft 2011-12. Mae'r adran hon hefyd yn trafod fformiwla Barnett a'r rhagolygon economaidd diweddaraf er mwyn gosod Cyllideb Ddrafft 2011-12 yn ei chyd-destun.

Mae [Adran 2](#) yn trafod dull gweithredu Llywodraeth Cymru wrth bennu Cyllideb Ddrafft 2011-12, o gofio'r setliad cyfyngedig, ac mae'n nodi ei blaenoriaethau strategol.

Mae [Adran 3](#) yn rhoi trosolwg ar adnoddau sydd ar gael ym mloc Cymru ar gyfer 2011-12.

Mae [Adran 4](#) yn rhoi trosolwg ar ddyraniadau adrannol Llywodraeth Cymru, yn cynnwys ystyried y dyraniadau refeniw a'r dyraniadau cyfalaf ar wahân.

Mae Adran 5 i 13 bob un yn cyflwyno'r prif ffigurau a chrynodeb o'r prif newidiadau a gynigir ar gyfer pob prif grwp gwariant.



# Cynnwys

<b>1. Adolygiad o Wariant 2010, yr effaith ar Floc Cymru a'r hinsawdd bresennol.....</b>	<b>1</b>
1.1. Fformiwla Barnett.....	3
1.2. Y rhagolygon economaidd .....	4
<b>2. Dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran y Gyllideb Ddrafft 2011-12 .....</b>	<b>6</b>
<b>3. Trosolwg ar floc Cymru .....</b>	<b>7</b>
<b>4. Trosolwg ar ddyraniadau adrannol Llywodraeth Cymru .....</b>	<b>9</b>
4.1. Cyfanswm DEL .....	9
4.2. DEL Refeniw .....	13
4.3. Cyfalaf DEL .....	16
4.4. Gwariant a reolir yn flynyddol (AME) .....	18
<b>5. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol .....</b>	<b>20</b>
<b>6. Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol .....</b>	<b>25</b>
<b>7. Yr Economi a Thrafnidiaeth.....</b>	<b>30</b>
<b>8. Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes .....</b>	<b>35</b>
<b>9. Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai .....</b>	<b>40</b>
<b>10. Materion Gwledig .....</b>	<b>45</b>
<b>11. Treftadaeth .....</b>	<b>49</b>
<b>12. Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad .....</b>	<b>54</b>
<b>13. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu .....</b>	<b>58</b>





## 1. Adolygiad o Wariant 2010, yr effaith ar Floc Cymru a'r hinsawdd bresennol

Yn gefndir i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12<sup>1</sup> roedd Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU 2010 a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2010.<sup>2</sup> Mae'r Adolygiad o Wariant 2010 yn nodi cynlluniau gwariant adrannol am y pedair blynedd hyd 2014-15, ar gyfer pob adran o Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r Adolygiad o Wariant 2010 yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth i **dorri £81 biliwn** dros gyfnod yr adolygiad o wariant (2011-12 i 2014-15).

Dengys yr Adolygiad o Wariant 2010 y ffigurau ar gyfer bloc Cymru o 2010-11 (blwyddyn llinell sylfaen) i 2014-15. Dangosir y ffigurau hyn ar sail terfynau gwariant adrannol (DEL)<sup>3</sup> a gwariant a reolir yn flynyddol (AME)<sup>4</sup>.

**Bloc cyffredinol Cymru ar gyfer 2011-12 yw £14.5 biliwn; £13.3 biliwn DEL** refeniw a £1.3 biliwn DELcyfalaf<sup>5</sup>.

O gymharu â 2010-11<sup>6</sup> mae bloc Cymru ar gyfer 2011-12:

- £0.5 biliwn (3.3%) yn llai mewn termau arian.
- Mewn termau real<sup>7</sup> mae hyn yn cyfateb i ostyngiad cyffredinol o £0.8 biliwn (5.1%).
- O fewn y cyfanswm DEL, cedwir DEL refeniw ar yr un lefel, sy'n ostyngiad o 1.9% mewn termau real, a gostyngir DEL cyfalaf o £0.4 biliwn, neu 25 canran mewn termau real.

Dros gyfnod yr adolygiad o wariant bydd bloc Cymru'n profi:

- Gostyngiad cyffredinol o £0.4 biliwn (2.7%) yn nhermau arian.

---

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12 ar 17 Tachwedd 2010. Mae'r gyllideb hon yn nodi cynlluniau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 i 2013-14. Gellir gweld dogfennau'r gyllideb drwy wefan Llywodraeth Cymru: [Y Cyllideb Ddrafft 2011-12](#). [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>2</sup> [Spending Review 2010](#). Trysorlys EM [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>3</sup> **Terfynau gwariant adrannol (DEL)** - cyfanswm terfynau gwariant ar gyfer adrannau'r Llywodraeth dros gyfnod penodedig, ac eithrio eitemau yn ôl galw ac eitemau eithriadol o anwadal. Caiff DEL eu cynllunio a'u pennu mewn Adolygiadau o Wariant. Maent wedi'u rhannu rhwng cyllidebau cyfalaf a chyllidebau adnoddau. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb eu neilltuo ac mae'n rhoi disgrisiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario (sef yr hyn a elwir yn gyllideb wedi'i chlustnodi).

<sup>4</sup> **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** - Ar y cyfan, mae'n fwy anodd rhagweld a rheoli gwariant sy'n rhan o'r gwariant a reolir yn flynyddol o'i gymharu â'r gwariant yn y terfynau gwariant adrannol. Oherwydd hynny, cytunir ar y gwariant a'i adolygu'n flynyddol. Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol wedi'i seilio yn ôl y galw, ac mae'n rhaid ei ddyrannu i'r rhaglen y'i clustnodir ar ei chyfer. gellir cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl y galw, tra bydd Trysorlys EM yn hawlio'n ôl unrhyw gyfran sydd heb gael ei wario .

<sup>5</sup> **Mae ffigurau yn yr Adolygiad o Wariant 2010 wedi'u talgrynnu i £0.1 biliwn, felly mae'n bosibl na fydd y ffigurau'n cyfrif yn gywir. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ffigurau a gyhoeddwyd yn nogfen yr Adolygiad o Wariant 2010.**

<sup>6</sup> Mae llinell sylfaen 2010-11 a ddefnyddir gan Drysorlys EM heb gynnwys gwariant untro a gwariant y mae arno gyfyngiad amser ac mae'n rhagdybio y bydd Llywodraeth Cymru yn gohirio 50 canran o'r toriadau sy'n ofynnol yn 2010-11 i 011-12 fel y nodwyd ym mis Mai 2010. I gael rhagor o wybodaeth am y toriadau hyn, gweler Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: [Effaith Gostyngiadau Gwariant y Deyrnas Unedig ar Gymru](#) (Mai 2010) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>7</sup> **Mae pob cyfrifo termau real a ddangosir yn y papur hwn wedi'u cyfrif patrwm datchwyddiant cynnyrch mewnwladol crynswth Trysorlys EM, diweddarwyd ym mis Medi 2010. Sylwer bod amcangyfrifon datchwyddiant cynnyrch mewnwladol crynswth yn 1.9% ar gyfer 2011-12, 2.3% ar gyfer 2012-13, a 2.6% ar gyfer 2013-14 ar y pryd. Mae'r rhain wedi'u diweddarau ar 29 Tachwedd 2010, gweler tud 5 am y manylion.**

- Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad cyffredinol o £1.9 biliwn (11.3%).
- Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 7.5 canran mewn refeniw mewn termau real, a gostyngiad cyfalaf o 41 canran mewn termau real.

Dywedodd (Cheryl Gillan), Ysgrifennydd Gwladol Cymru am yr adolygiad o wariant:

No part of the UK can be immune from our share of the cuts made necessary by the deficit we inherited from the last Government, but this is a fair funding settlement for Wales. The Welsh Assembly Government is facing smaller cuts than most UK Government departments but, like everywhere else, tough decisions will have to be faced in Cardiff Bay. In the continued spirit of respect and partnership between our governments, I am committed to working the First Minister and Deputy First Minister to try to protect frontline services in Wales. I also welcome the reserved infrastructure projects announcement which will help support the Welsh economy and will be important for Wales's future growth.<sup>8</sup>

Mewn ymateb i'r adolygiad o wariant dywedodd (Jane Hutt) y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb:

The Spending Review means that Wales will receive the biggest cuts in its budget in at least a generation, and bigger than the gostyngiad in any of the other devolved administration's budgets.

...by 2014-15 our capital budget will be lower in real terms than at any stage since the 1980s. The budget is slashed in the first year by more than 25% in real terms. This risks doing major damage to the economic recovery in Wales.

Overall our budget is facing a gostyngiad of 0.8% per year in cash terms, or 3.1% per year in real terms. This means that by 2014-15 our budget will be 12% lower in real terms than this year.

The UK Government's decision to ignore the case for tacking underfunding in Wales contrasts with the approach to Scotland and Northern Ireland. Both of the other Devolved Administrations have received additional resources from the UK Government on top of their settlements.<sup>9</sup>

<sup>8</sup> Trysorlys EM, [Spending Review 2010 Press Notices](#), Cymru, 20 Hydref 2010 [fel ar 8 Rhagfyr 2010]

<sup>9</sup> Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb), [The UK Government's spending Review of 20 October 2010](#), 21 Hydref 2010. [fel ar 8 Rhag 2010]

## 1.1. Fformiwla Barnett

Mae'r dyraniad i floc Cymru yn yr adolygiad o wariant 2010 wedi'i benderfynu gan fformiwla Barnett fel y digwyddodd mewn blynyddoedd diweddar.<sup>10</sup>

Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddwyd adroddiad terfynol Comisiwn Holtham.<sup>11</sup> Roedd yr adroddiad hwn, ynghyd ag adroddiad interim y Comisiwn,<sup>12</sup> yn rhoi sylw i nifer o faterion mewn cysylltiad â fformiwla Barnett ac yn argymhell bod fformiwla syml ar sail angen yn cymryd ei le. Roedd yr adroddiad interim hefyd yn nodi rhai 'atebion sydyn' posibl o ran tegwch a thryloywder. Roedd Holtham hefyd yn argymhell y byddai'n briodol i ystyried datganoli rhyw gymaint o bwerau trethu i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â rhyw gymaint o bwerau benthyca er mwyn cyllido buddsoddi cyfalaf.

Dywed dogfen naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12:

Of the devolved administrations, we have received the worst settlement on both our revenue and capital budgets. Treasury figures show that we have received an 11.3% gostyngiad to our overall budget in real terms compared to reductions of 10.6% and 10.7% for Scotland and Northern Ireland respectively. These differences arise because of the arbitrary nature of the Barnett formula and serve to further demonstrate the need for reform. It is therefore vital that we continue to argue for the introduction of a funding floor as an urgent first step to mitigate the worst of this problem, followed by the introduction of a needs-based regime over the medium term.<sup>13</sup>

Ym mis Tachwedd 2010, ymddangosodd Prif Ysgrifennydd Trysorlys ei Mawrhydi (Danny Alexander) gerbron Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mewn cysylltiad â phwerau trethu a benthyca a argymhellwyd gan Gomisiwn Holtham, dywedodd:

If there is a consensus within Wales, and across the parties within the National Assembly, that would welcome those sorts of greater financial freedoms in relation to taxation and borrowing, along the sorts of lines that we are shortly to start legislating for in relation to Scotland, then I would respond positively to that.<sup>14</sup>

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adolygiad o wariant 2010<sup>15</sup> fe ymddengys bod y trafodaethau hyn yn gysylltiedig â chanlyniad y refferendwm ar bwerau deddfwriaethol ym mis Mawrth 2011.

Mewn cysylltiad â fformiwla Barnett, eglurodd y Prif Ysgrifennydd yn glir:

...it is not the time to open up a debate about reforming the Barnett formula.

<sup>10</sup> Mae rhagor o wybodaeth ar weithredu Fformiwla Barnett Formula mewn Hysbysiad Hwylus gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau: [Fformiwla Barnett](#) [fel ar 8 Rhagfyr 2010]

<sup>11</sup> Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru, [Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru](#), Gorff 2010 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>12</sup> Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru, [Funding devolved government in Wales: Barnett & beyond](#), July 2009 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>13</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 4 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>14</sup> Cofnod y Pwyllgor Cyllid [22 Tachwedd 2010](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>15</sup> Trysorlys EM, [Spending Review 2010](#) tud 70 [fel ar 8 Rhag 2010]

... our principal priority in terms of economic and fiscal policy is the need to tackle the deficit, to get public spending under control, and to ensure that the country has financial stability going forward over the next few years. I do not believe that this is the time to open up what would be a technical, detailed and lengthy discussion about replacing the Barnett formula.<sup>16</sup>

## 1.2. Y rhagolygon economaidd

Yn ddiweddar cyhoeddodd y Swyddfa gyda Chyfrifoldeb am Gyllidebau ei rhagolygon diweddaraf. Mae'n cyflwyno rhagolygon ar gyfer yr economi a chyllid cyhoeddus hyd 2015-16, ac yn diweddarau'r rhagolwg blaenorol a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2010 ar y cyd â Chyllideb Llywodraeth y DU. Pwysleisia'r ddogfen hon bod:

...significant uncertainty around all economic and fiscal forecasts.<sup>17</sup>

Mae'r rhagolwg newydd yn codi'r amcan ar gyfer twf cynnyrch mewnwladol crynswth eleni, o 1.2% i 1.8%, oherwydd twf cryfach na'r disgwyl ers y gwanwyn. Fodd bynnag, mewn cymhariaeth â rhagolygon cynharach, gostyngwyd y twf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf; 2.1% y flwyddyn nesaf a 2.6% yn 2012 (a amcangyfrifwyd yn flaenorol fel 2.3% a 2.8% yn ôl eu trefn).

Yn wahanol i'r rhagolygon uwch hyn ar gyfer cynnyrch mewnwladol crynswth, dengys yr ystadegau diweddaraf ar werth ychwanegol crynswth rhanbarthol fod gwerth ychwanegol crynswth Cymru wedi syrthio 2.2 canran yn 2009 o'i gymharu â'r hyn ydoedd yn 2008. Syrthiodd gwerth ychwanegol crynswth Cymru 2.5 canran y pen yn 2008 i £14,842, y gwerth ychwanegol crynswth isaf y pen o holl ranbarthau'r DU.<sup>18</sup>

Mewn perthynas â chyflogaeth cyffredinol y Llywodraeth (sector cyhoeddus), roedd y rhagolygon OBR ym mis Mehefin yn amcangyfrif y byddai hwn yn syrthio o 490,000 dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r rhagolwg hwn bellach wedi gostwng i 330,000, o ganlyniad i doriadau llai na'r hyn a ofnwyd ar wariant cyhoeddus. Mae'r rhagolwg hefyd yn amcangyfrif gostyngiad pellach o 80,000 yn 2015-16 o ganlyniad i'r rhewi arfaethedig ar wario cyhoeddus yn y flwyddyn honno.

O ran chwyddiant, mae'r rhagolygon yn nodi y bydd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn gostwng o 3.2 canran yn 2010 i 2.8% yn 2011, ac 1.9 canran yn 2012 wrth i effeithiau tymor byr y cynnydd yn y Dreth ar Werth ddod yn amlwg ac wrth i ffactorau dros dro eraill gilio.

<sup>16</sup> Cofnod y Pwyllgor Cyllid [22 Tachwedd 2010](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>17</sup> Swyddfa â Chyfrifoldeb am Gyllidebau, [Economic and Fiscal Outlook](#), 29 Tachwedd 2010 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>18</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Regional, sub-regional and local gross value added 2009](#), 8 Rhag 2010 [fel ar 8 Rhag 2010]

**Sylwer bod yr holl gyfrifiadau termau real a ddangosir yn y papur hwn wedi'u cyfrif gan ddefnyddio patrwm datchwyddiant cynnyrch mewnwladol crynswth Trysorlys EM (fel y diweddarwyd ym mis Medi 2010). Sylwer mai'r amcangyfrifon ar gyfer y patrwm datchwyddiant cynnyrch mewnwladol crynswth a ddefnyddir yw:**

- **1.9% ar gyfer 2011-12:**
- **2.3% ar gyfer 2012-13; a**
- **2.6% ar gyfer 2013-14.**

**Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, diweddarwyd y patrymau datchwyddiant cynnyrch mewnwladol crynswth i adlewyrchu'r rhagolwg economaidd diwygiedig (29 Tachwedd 2010). Y ffigurau diwygiedig yw 2.5% ar gyfer 2011-12; 2.2% ar gyfer 2012-13; a 2.7% ar gyfer 2013-14.**

**Mae'r cyfrifiadau a welir yn y papur hwn yn defnyddio amcangyfrif y patrwm datchwyddiant blaenorol fel y nodir, gan mai dyma'r ffigurau a oedd ar gael ac a ddyfynnwyd ar amser yr Adolygiad o Wariant 2010 a Chyllideb Ddrafft 2011-12.**

Mae hyn yn bwysig wrth ystyried grym gwario cyffredinol Llywodraeth Cymru, gan fod cynnydd yn y rhagdybiaethau chwyddiant yn awgrymu y bydd swm penodedig o arian yn prynu llai o nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, problem bellach yw a yw'r rhagolygon datchwyddiant yn cynrychioli'n ddigonol y pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus, y mae modd i gostau cyflogau a chontractwyr ddylanwadu arno eto.

## 2. Dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran y Gyllideb Ddrafft 2011-12

Yn y ddogfen naratif sy'n cydfynd â'r Gyllideb Ddrafft 2011-12 dywedir:

We have taken a distinctive Welsh approach in preparing our Draft Budget. We have been planning for a tough financial settlement for some time and that preparation has stood us in good stead. It has enabled us to reach principled, fair and sound decisions in setting our Draft Budget. Our approach has been informed by the principles that shaped our work when budgets were increasing, which have at their heart our commitment to fairness and our vision for Wales as a self-confident, sustainable and healthy nation. Our commitment to the principles of sustainable development and alleviating the impacts of climate change underpin the development of this Draft Budget.

In determining our strategic priorities, the focus has been on protecting frontline services, protecting the vulnerable, promoting equality of opportunity and outcomes, as well as supporting the economic recovery wherever possible. With reducing budgets, this is a difficult task and difficult choices have had to be made. We have approached these choices on the basis of the best evidence available and have assessed the equality impact of our decisions throughout the process in order to ensure that our spending plans maximise opportunities to meet the needs of people and communities most likely to be adversely affected by the Spending Review.<sup>19</sup>

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau strategol a nodwyd uchod, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad hefyd i warchod buddsoddi mewn ysgolion, mewn sgiliau a gofal iechyd eilaidd ac mewn gofal iechyd cymunedol, ac ymrwymiad i gadw manteision cyffredinol fel presgripsiynau am ddim, llefrith a brecwastau am ddim mewn ysgolion, tocynnau mantais ar fwsiau a nofio am ddim. Yn unol â'r blaenoriaethau hyn mae'r Gyllideb Ddrafft 2011-12 yn:

- Diogelu arian refeniw ar gyfer ysgolion a sgiliau un canran uwchlaw'r newid cyffredinol yn y gyllideb Gymreig;
- Diogelu arian refeniw cyffredinol iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ostyngiadau arian parod;
- Diogelu elfen gwasanaethau cymdeithasol arian llywodraeth leol; a
- Cynyddu'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau cyffredinol o 3.7 canran dros gyfnod y gyllideb.

---

<sup>19</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud I [fel ar 8 Rhag 2010]

### 3. Trosolwg ar floc Cymru

Dengys Atodlen 6 o gynigion y Gyllideb Ddrafft<sup>20</sup> yr adnoddau y sicrhaodd Trysorlys EM ar gyfer bloc Cymru, ac mae crynodeb o hwn yn [nhabl 1](#). Dengys hwn gyfanswm bloc Cymru ar gyfer 2011-12 fel **£15.3 biliwn**.

Tabl 1: Adnoddau y sicrhaodd Trysorlys EM ar gyfer bloc Cymru ar gyfer 2011-12

	DEL	Gwariant rheoledig blynyddol	Cyfanswm
Refeniw	13,706	106	13,812
Cyfalaf	1,268	218	1,486
<b>Cyfanswm</b>	<b>14,974</b>	<b>324</b>	<b>15,298</b>

Ffynhonnell: Atodlen 6 o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12

Mae [Tabl 2](#) isod yn dangos cyfanswm gwariant a reolir<sup>21</sup> o fewn bloc Cymru (hy dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru, a darpariaeth ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol, Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus a chronfeydd wrth gefn).

**Dylid nodi bod y ffigurau a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llinell sylfaen 2010-11 wedi'u cymryd o Gyllideb Atodol 2010-11 fel y'u cyflwynwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010,<sup>1</sup> ac a addaswyd i ddileu dyraniadau untro yn ystod y flwyddyn.**

Cyfanswm y gwariant a reolir o fewn bloc Cymru ar gyfer 2011-12 yw £15.3 biliwn, sy'n ostyngiad o £542 miliwn (3.4%) ar yr hyn oedd yn 2010-11. Mae hwn yn ostyngiad mewn termau real o £827 miliwn (5.2%).

Dros flynyddoedd 2010-11 i 2013-14 mae gostyngiad cyffredinol o £455 miliwn (2.9%) yn y cyfanswm gwariant a reolir ym mloc Cymru; mae hwn yn ostyngiad mewn termau real o £1.4 biliwn (9.2%).

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#), Atodlen 6 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>21</sup> Mae'r **cyfanswm gwariant a reolir (TME)** yn cynrychioli gwariant refeniw a chyfalaf y sector cyhoeddus ac mae'n cynnwys terfynau gwariant adrannol (DEL) a gwariant a reolir yn flynyddol (AME).

Tabl 2: Cyfanswm gwariant a reolir (TME) ym mloc Cymru 2010-11 i 2011-12 a newid cronol 2010-11 i 2013-14

Prif Grwp Gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau newydd Cyllideb Ddrafft 2011-12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronol 2010-11 i 2013- 14	Newid cronol 2010- 11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
<b>Cyfanswm dyraniadau gwariant rheoledig Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,321,636</b>	<b>15,017,082</b>	<b>-304,554</b>	<b>-2.0</b>	<b>-584,558</b>	<b>-3.8</b>	<b>-424,757</b>	<b>-2.8</b>	<b>-1,393,337</b>	<b>-9.1</b>
Cronfeydd Refeniw	187,219	164,148	-23,071	-12.3	-26,132	-14.0	187,809	100.3	163,425	87.3
Cronfeydd cyfalaf	266,619	50,448	-216,171	-81.1	-217,112	-81.4	-216,170	-81.1	-219,450	-82.3
Comisiwn y Cynulliad	46,227	48,822	2,595	5.6	1,685	3.6	-1,206	-2.6	-4,133	-8.9
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,047	4,853	-194	-3.8	-284	-5.6	-194	-3.8	-510	-10.1
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,166	3,962	-204	-4.9	-278	-6.7	-206	-4.9	-463	-11.1
Taliadau uniongyrchol	675	675	0	0.0	-13	-1.9	0	0.0	-44	-6.5
<b>Cyfanswm gwariant rheoledig Cymru</b>	<b>15,831,589</b>	<b>15,289,990</b>	<b>-541,599</b>	<b>-3.4</b>	<b>-826,692</b>	<b>-5.2</b>	<b>-454,724</b>	<b>-2.9</b>	<b>-1,454,512</b>	<b>-9.2</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12

Nid yw'r ffigurau ar gyfer y cronfeydd refeniw a chyfalaf 2010-11 a ddangosir yn y tabl hwn yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd yn nogfen y gyllideb ddrafft. Mae hyn oherwydd nad yw'r ffigurau a gyhoeddwyd wedi cael eu hail-ddatgan yn yr un modd â'r holl ffigurau llinell sylfaen eraill 2010-11. Mae'r ffigurau a ddangosir yma wedi cael eu hail-ddatgan ac fe'u cafwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, golyga hyn nad oes modd i gronfeydd gael eu cymharu rhwng 2010-11 a 2011-12.



## 4. Trosolwg ar ddyraniadau adrannol Llywodraeth Cymru

Fel y gwelir yn [nhabl 2](#) mae cyfanswm y gwariant a reolir a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru (hy y ddarpariaeth ar gyfer y prif grwpiau gwariant) am 2011-12 yn £15 biliwn, sef 98 canran o gyfanswm bloc Cymru.

Mewn cymhariaeth â 2010-11 mae hyn yn ostyngiad o £305 miliwn (2.0%). Mae'n ostyngiad mewn termau real o £585 miliwn (3.8%).

Dros y blynyddoedd 2010-11 i 2013-14 mae gostyngiad cyffredinol o £425 miliwn (2.8%) yng nghyfanswm y gwariant a reolir a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru; mae'n ostyngiad mewn termau real o £1.4 biliwn (9.1%).

### 4.1. Cyfanswm DEL

Dengys [Tabl 3](#) y cyfanswm DEL (refeniw a chyfalaf) a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru. O hwn mae modd gweld fod cyfanswm y newidiadau DEL dros gyfnod y gyllideb fel a ganlyn:


- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £326.8 miliwn (2.2%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £600.8 miliwn (4.0%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £96.1 miliwn (0.7%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £424.3 miliwn (2.9%);
- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £48.9 miliwn (0.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £417.6 miliwn (2.9%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £471.8 miliwn (3.1%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £1,417.8 miliwn (9.4%).

Dengys [Ffigur 1](#) y dyraniadau cyfanswm DEL rhwng y prif grwpiau gwariant dros gyfnod y gyllideb ddrafft (2010-11 i 2013-14).

Dengys [Ffigur 2](#) y newidiadau o ran canran o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfanswm DEL y prif grwpiau gwariant a gynlluniwyd yn erbyn y cyfanswm newid DEL cyffredinol (gostyngiad o 2.2%) ar draws pob portffolio. O hyn mae modd gweld mai dim ond yn y portffolio lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a Chyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol roedd gostyngiadau ar raddfa lai na'r newid cyffredinol ar draws pob portffolio. Y gostyngiad mwyaf o ran canran yn y cyfanswm DEL yw yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad


Dengys [Tabl 4](#) y gyfran o'r cyfanswm DEL a ddyrannwyd i bob prif grŵp gwariant. Mae hwn yn dangos mai Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r portffolio sydd â'r dyraniad mwyaf, yn cynrychioli 42 canran o'r cyfanswm DEL, gyda Chyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ail iddo gyda 30 canran, yna'r adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyda 13 canran ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth gyda 6 canran.

**Ffigur 1: DEL cyfanswm fesul portfolio mewn termau arian parod, 2010-11 i 2013-14**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

Ffigur 2: Newid o ran canran yn y cyfanswm DEL fesul portffolio yn nhermau arian parod



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

Tabl 3: Cyfanswm DEL a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru, 2010-11 i 2011-12 a newid cronrol 2010-11 i 2013-14

Prif Grwp Gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau newydd Cyllideb Ddrafft 2011- 12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronrol 2010-11 i 2013- 14	Newid cronrol 2010- 11 i 2013-14	Newid cronrol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronrol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,170,809	6,132,587	-38,222	-0.6	-152,569	-2.5	-69,694	-1.1	-466,382	-7.6
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,459,941	4,373,218	-86,723	-1.9	-168,265	-3.8	-42,392	-1.0	-329,616	-7.4
Economi a Thrafnidiaeth	973,730	903,042	-70,688	-7.3	-87,526	-9.0	-126,810	-13.0	-181,876	-18.7
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1,878,043	1,846,817	-31,226	-1.7	-65,661	-3.5	-29,023	-1.5	-149,244	-7.9
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	801,743	740,953	-60,790	-7.6	-74,606	-9.3	-123,618	-15.4	-167,709	-20.9
Materion Gwledig	143,289	136,556	-6,733	-4.7	-9,279	-6.5	-9,395	-6.6	-18,101	-12.6
Treftadaeth	157,584	150,850	-6,734	-4.3	-9,547	-6.1	-10,551	-6.7	-20,111	-12.8
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	70,393	63,782	-6,611	-9.4	-7,800	-11.1	-13,344	-19.0	-17,053	-24.2
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	365,621	346,499	-19,122	-5.2	-25,583	-7.0	-46,968	-12.8	-67,686	-18.5
<b>Cyfanswm Dy raniadau DEL Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,021,153</b>	<b>14,694,304</b>	<b>-326,849</b>	<b>-2.2</b>	<b>-600,835</b>	<b>-4.0</b>	<b>-471,795</b>	<b>-3.1</b>	<b>-1,417,779</b>	<b>-9.4</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

Tabl 4: Cyfran o'r dyraniad cyfanswm DEL i bob prif grwp gwariant

Prif Grwp Gwariant	Canran y cyfanswm dyraniadau DEL			
	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	41.1	41.7	41.9	41.9
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	29.7	29.8	30.0	30.4
Economi a Thrafnidiaeth	6.5	6.1	6.0	5.8
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	12.5	12.6	12.6	12.7
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	5.3	5.0	4.9	4.7
Materion Gwledig	1.0	0.9	0.9	0.9
Treftadaeth	1.0	1.0	1.0	1.0
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	0.5	0.4	0.4	0.4
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	2.4	2.4	2.3	2.2
<b>Cyfanswm Dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru</b>	<b>100.0</b>	<b>100.0</b>	<b>100.0</b>	<b>100.0</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.


#### 4.2. DEL Refeniw

Dengys [Tabl 5](#) y DEL refeniw a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru. O hyn mae modd gweld y newidiadau DEL refeniw dros gyfnod y gyllideb fel a ganlyn:

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £137.1 miliwn (1.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £388.5 miliwn (2.9%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £16.8 miliwn (0.1%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £319.5 miliwn (2.4%);
- 2012-13 i 2013-14: cynnydd o £74.7 miliwn (0.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £268.3 miliwn (2%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £79.2 miliwn (0.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £959.4 miliwn (7%).

Dengys [Ffigur 3](#) y newidiadau yn y canran o flwyddyn i flwyddyn yn DEL refeniw y prif grwpiau gwariant, a gynlluniwyd yn erbyn y newid yn y DEL refeniw cyffredinol (gostyngiad o 1 canran) ar draws pob portffolio. O hyn mae modd gweld mai dim ond y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi profi gostyngiadau ar raddfa lai na'r newid cyffredinol drwy bob portffolio. Mae hyn am y rheswm bod ei gyllideb refeniw wedi'i ddiogelu yn nhermau arian. Yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad y gwelwyd y gostyngiad mwyaf o ran canran yn y gyllideb refeniw.

Ffigur 3: Canran o ran newid yn y DEL referiw fesul portfolio yn nhermau arian parod



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

Tabl 5: DEL refeniw a ddyranwyd i Lywodraeth Cymru, 2010-11 i 2011-12 a'r newid cronol 2010-11 i 2013-14

Prif Grwp Gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2011-12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronol 2010-11 i 2013- 14	Newid cronol 2010- 11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5,867,797	5,867,797	0	0.0	-109,409	-1.9	13,768	0.2	-368,645	-6.3
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,406,846	4,330,899	-75,947	-1.7	-156,700	-3.6	-24,386	-0.6	-309,329	-7.0
Economi a Thrafnidiaeth	597,490	589,848	-7,642	-1.3	-18,640	-3.1	-10,253	-1.7	-48,435	-8.1
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1,694,551	1,673,464	-21,087	-1.2	-52,290	-3.1	10,735	0.6	-100,141	-5.9
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	383,750	375,409	-8,341	-2.2	-15,341	-4.0	-12,700	-3.3	-36,825	-9.6
Materion Gwledig	126,560	123,722	-2,838	-2.2	-5,145	-4.1	-4,222	-3.3	-12,176	-9.6
Treftadaeth	138,962	136,007	-2,955	-2.1	-5,491	-4.0	-4,236	-3.0	-12,996	-9.4
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	48,968	46,705	-2,263	-4.6	-3,134	-6.4	-6,078	-12.4	-8,867	-18.1
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	350,588	334,517	-16,071	-4.6	-22,308	-6.4	-41,870	-11.9	-61,943	-17.7
<b>Cyfanswm dyraniadau DEL Refeniw Llywodraeth Cymru</b>	<b>13,615,512</b>	<b>13,478,368</b>	<b>-137,144</b>	<b>-1.0</b>	<b>-388,458</b>	<b>-2.9</b>	<b>-79,242</b>	<b>-0.6</b>	<b>-959,356</b>	<b>-7.0</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

### 4.3. Cyfalaf DEL

Dywed y naratif sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft 2011-12:

Rydym yn hynod o bryderus ynghylch graddfa'r toriadau ar gyllidebau cyfalaf a orfodir gan Lywodraeth y DU. Credwn fod parhau i fuddsoddi cyfalaf yn hanfodol i arwain adferiad economaidd Cymru. Wrth benderfynu ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn y blynyddoedd nesaf, mae pob prosiect cyfalaf wedi'i asesu yn ôl eu cyfraniad at gyflawni ymrwymïadau *Cymru'n Un*, wrth warchod y rhai agored i niwed ac wrth ddarparu sbardun economaidd. Mae eu heffaith ar egwyddorion cynaliadwyedd a chydarddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi bod yn ystyriaeth allweddol.<sup>22</sup>

Dengys [Tabl 6](#) y DEL cyfalaf a ddyrannwyd o adrannau Llywodraeth Cymru. Mae modd gweld bod y DEL cyfalaf yn newid dros gyfnod y gyllideb fel a ganlyn:

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £189.7 miliwn (13.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £212.4 miliwn (15.1%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £79.2 miliwn (6.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £104.8 miliwn (8.6%);
- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £123.6 miliwn (10.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £149.3 miliwn (13.1%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £392.6 miliwn (27.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £458.4 miliwn (32.6%).

Dengys [Ffigur 4](#) y newidiadau yn y canran o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfalaf DEL y prif grwpiau gwariant, a gynlluniwyd yn ôl y newid yn y DEL cyfalaf cyffredinol (13.5% gostyngiad) ar draws pob portffolio. O hyn mae modd gweld bod y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r portffolio Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi profi gostyngiadau ar raddfa lai na'r newid cyffredinol drwy'r holl bortffolios. Mae'r portffolio Materion Gwledig wedi profi'r gostyngiad mwyaf o ran canran yn ei gyllideb cyfalaf.

---

<sup>22</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#), Llywodraeth Cymru, tud 26 [fel ar 8 Rhag 2010]




Tabl 6: DEL cyfalaf a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru, 2010-11 i 2011-12 a newid cronno1 2010-11 i 2013-14

Prif Grwp Gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2011- 12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronno1 2010-11 i 2013- 14	Newid cronno1 2010- 11 i 2013-14	Newid cronno1 mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronno1 mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	303,012	264,790	-38,222	-12.6	-43,159	-14.2	-83,462	-27.5	-97,737	-32.3
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	53,095	42,319	-10,776	-20.3	-11,565	-21.8	-18,006	-33.9	-20,287	-38.2
Economi a Thrafnidiaeth	376,240	313,194	-63,046	-16.8	-68,886	-18.3	-116,557	-31.0	-133,441	-35.5
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	183,492	173,353	-10,139	-5.5	-13,371	-7.3	-39,758	-21.7	-49,103	-26.8
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	417,993	365,544	-52,449	-12.5	-59,265	-14.2	-110,918	-26.5	-130,884	-31.3
Materion Gwledig	16,729	12,834	-3,895	-23.3	-4,134	-24.7	-5,173	-30.9	-5,924	-35.4
Treftadaeth	18,622	14,843	-3,779	-20.3	-4,056	-21.8	-6,315	-33.9	-7,115	-38.2
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	21,425	17,077	-4,348	-20.3	-4,666	-21.8	-7,266	-33.9	-8,187	-38.2
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	15,033	11,982	-3,051	-20.3	-3,274	-21.8	-5,098	-33.9	-5,744	-38.2
<b>Cyfanswm dyraniadau DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru</b>	<b>1,405,641</b>	<b>1,215,936</b>	<b>-189,705</b>	<b>-13.5</b>	<b>-212,377</b>	<b>-15.1</b>	<b>-392,553</b>	<b>-27.9</b>	<b>-458,423</b>	<b>-32.6</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

Ffigur 4: Canran o ran newid mewn DEL cyfalaf fesul portfolio mewn termau arian parod



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

#### 4.4. Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)

Mae gwariant a reolir yn flynyddol yn gyffredinol yn fwy cyfnewidiol na gwariant yn y terfynau gwariant adrannol ac felly nid oes arno gyfyngiadau aml-flynyddol pendant, ond yn hytrach caiff ei gyd-drafod â Thrysorlys EM yn flynyddol. Mae gwariant a reolir yn flynyddol wedi'i seilio yn ôl y galw a rhaid ei ddyrannu i'r rhaglen y'i clustnodir ar ei chyfer. Gellir cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl y gofyn, tra bydd Trysorlys EM yn hawlio'n ôl unrhyw gyfran sydd heb gael ei wario. Oherwydd natur gwariant a reolir yn flynyddol, ychydig o ddewis sydd gan Lywodraeth Cymru o ran ei ddyrannu .

Dengys [Tabl 7](#) mai'r gwariant a reolir yn flynyddol a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru yn 2011-12 yw £322.8 miliwn, sy'n gynnydd o 7.4% ar ben yr hyn oedd yn 2010-11. Mewn termau real, mae hyn yn gynnydd o 5.4%. Oherwydd natur gyfnewidiol gwariant a reolir yn flynyddol sydd wedi'i seilio yn ôl y galw, mae'n bosibl y bydd cynlluniau dangosol a ddangosir ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn newid yn sylweddol.

Tabl 7: Gwariant a reolir yn flynyddol a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru,, 2010-11 i 2011-12 a newid cronol 2010-11 i 2013-14

Prif Grwp Gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2011- 12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronol 2010-11 i 2013- 14	Newid cronol 2010- 11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	118,948	118,948	0	0.0	-2,218	-1.9	0	0.0	-7,734	-6.5
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	11,677	13,583	1,906	16.3	1,653	14.2	1,906	16.3	1,023	8.8
Economi a Thrafnidiaeth	41,402	41,402	0	0.0	-772	-1.9	0	0.0	-2,692	-6.5
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	203,398	217,656	14,258	7.0	10,200	5.0	23,118	11.4	8,390	4.1
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	-77,000	-72,000	5,000	-6.5	6,342	-8.2	22,000	-28.6	25,576	-33.2
Materion Gwledig	0	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Treftadaeth	2,058	2,265	207	10.1	165	8.0	682	33.1	504	24.5
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	0	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	0	924	924	..	907	..	-668	..	-625	..
<b>Cyfanswm dyraniadau AME Llywodraeth Cymru</b>	<b>300,483</b>	<b>322,778</b>	<b>22,295</b>	<b>7.4</b>	<b>16,277</b>	<b>5.4</b>	<b>47,038</b>	<b>15.7</b>	<b>24,443</b>	<b>8.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.2.

## 5. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae [Tabl 8](#) yn rhoi gwybodaeth am ddyraniadau arfaethedig prif grwp gwariant yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dengys Ffigur 5 a 6 y newidiadau o ran canran mewn DEL refeniw a chyfalaf yn 2011-12 a'r newidiadau cronol hyd at 2013-14.

Nodwyd yn yr adroddiad sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft 2011-12:

We will protect the level of health funding for core health services in cash terms. The NHS cannot be immune from the need to make efficiency savings. It has an excellent track record in this regard, having delivered £850m in savings over the previous four years. It will need to continue to make efficiencies to meet unavoidable increases in costs.<sup>23</sup>

Yn ddiweddarach yn yr adroddiad nodwyd:

...it is planned to save £40m or 20% on management costs by 2013-14, reducing them from 4.2% of total cost to 3.4%.<sup>24</sup>

Yn ei phapur i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol dywed (Edwina Hart) y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd parhau â'r lefel hon o arbedion yn digwydd drwy:

the on going development and implementation of integrated service, workforce and financial plans.<sup>25</sup>

### *Cyfanswm DEL*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £38.2 miliwn (0.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £152 miliwn (2.5%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £18.5 miliwn (0.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £156 miliwn (2.5%);
- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £13 miliwn (0.2%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £167.6 miliwn (2.7%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £69.7 miliwn (1.1%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £466.4 miliwn (7.6%).

### *DEL Refeniw*

- 2010-11 i 2011-12: wedi'i ddiogelu yn nhermau arian parod; sy'n ostyngiad mewn termau real o £109.4 miliwn (1.9%);

<sup>23</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 34-35 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>24</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 36-37 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>25</sup> Papur y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol [HWLG\(3\)-19-10 : Papur 2 : Sesiwn Graffu ar y Gyllideb Ddrafft - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

- 2011-12 i 2012-13: wedi'i ddiogelu yn nhermau arian parod; sy'n ostyngiad mewn termau real o £131.9 miliwn (2.2%);
- 2012-13 i 2013-14: cynnydd o £13.8 miliwn (0.2%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £135.3 miliwn (2.3%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae cynnydd cronol o £13.8 miliwn (0.2%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £368.6 miliwn (6.3%).

### *DEL Cyfalaf*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £38.2 miliwn (12.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £43.2 miliwn (14.2%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £18.5 miliwn (7%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £24 miliwn (9.1%);
- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £26.7 miliwn (10.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £32.3 miliwn (13.1%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £83.5 miliwn (27.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £97.7 miliwn (32.3%).

### *Newidiadau o fewn y Prif Grwp Gwariant yn 2011-12*

Mae'r adran hon yn nodi'r prif newidiadau o fewn prif grwp gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y maes rhaglenni gwariant a'r cam gweithredu, fel y nodwyd yn y tablau dyraniadau gwariant sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>26</sup> Sylwer, lle mae esboniadau wedi'u darparu isod am y newidiadau, maent yn deillio o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol,<sup>27</sup> neu ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>28</sup>

- Mae'r cynnydd mwyaf o ran arian yn y DEL refeniw yn y cam/maes rhaglen gwariant Darparu'r GIG lle y mae cynnydd o £19.5 miliwn, neu 0.4% yn nhermau arian parod. Nodir fod hwn yn cynrychioli ail-flaenoriaethu cyllidebau a gaiff eu cadw'n ganolog i gefnogi darpariaeth gwasanaeth iechyd rheng flaen.
- Mae'r cynnydd mwyaf o ran canran yn y DEL refeniw yn y cam Oedolion a Phobl Hyn o fewn maes rhaglen gwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn yn gynydd o 11.5%, neu £5.3 miliwn yn nhermau arian parod Mae'n adlewyrchu trosglwyddo arian o'r cam Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (sy'n ostyngiad cyfatebol o £5.5 miliwn, neu 20.2% mewn termau arian parod) ar gyfer gweithredu Mesur Codi Tâl am Ofal Cartref drwy'r grant cymorth refeniw.


<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru, [Dyraniadau Gwariant y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>27</sup> Papur y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol [HWLG\(3\)-19-10 : Papur 2 : Sesiwn Graffu ar y Gyllideb Ddrafft - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12 tudalen 33-38](#) [fel ar 8 Rhag 2010]


- Mae'r gostyngiad mwyaf yn y DEL refeniw (yn nhermau arian parod a chanran) yn y cam Trefniadau Paratoi Iechyd Brys Effeithiol o fewn y maes rhaglen gwariant Iechyd Cyhoeddus ac Atal. Mae hwn yn ostyngiad o £13 miliwn, neu 68.8% mewn termau arian parod. Nodir fod hyn yn bennaf oherwydd arian ar gyfer dileu stoc gwrth-firysol nad oes disgwyl iddo fod yn ofynnol yn 2011-12 ac a gaiff ei ailgyfeirio i ddiwallu pwysau arall o fewn y prif grwp gwariant.
- Mewn cysylltiad â DEL cyfalaf, bydd gostyngiad o 12.6% yn nhermau arian parod ym mhob cam, ac eithrio Cyngor Gofal Cymru sydd â gostyngiad o 8%. Mae hyn oherwydd bod i'r cam hwn ddyraniad cyfalaf cymharol fach o ddim ond £25,000 yn 2010-11, sy'n gostwng i £23,000 yn 2011-12.
- O'r gostyngiadau DEL cyfalaf y gostyngiad mwyaf sylweddol yn nhermau arian parod yw'r cam/maes rhaglen gwariant Darparu'r GIG, sy'n gostwng o £35.7 miliwn. Hwn yw'r arian ar gyfer Rhaglen Cyfalaf Cymru Gyfan.

**Ffigur 5: Newid o ran canran yn DEL referiw lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (yn nhermau arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12

**Ffigur 6: Canran y newid mewn DEL cyfalaf lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (yn nhermau arian)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12

Tabl 8: Prif Grwp Gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2010-11 i 2011-12 a newid cronol 2010-11 i 2013-14

Maes rhaglen gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2011- 12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronol 2010-11 i 2013- 14	Newid cronol 2010- 11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
<b>DEL REFENIW</b>										
Darparu'r GIG	5,332,150	5,351,604	19,454	0.4	-80,331	-1.5	33,223	0.6	-315,628	-5.9
Cyllidebau Canolog lechyd	<b>264,914</b>	<b>257,615</b>	-7,299	-2.8	-12,102	-4.6	-7,299	-2.8	-24,049	-9.1
lechyd Cyhoeddus ac Atal	167,711	155,592	-12,119	-7.2	-15,020	-9.0	-12,120	-7.2	-22,236	-13.3
Gwasanaethau Cymdeithasol	102,564	102,564	0	0.0	-1,912	-1.9	0	0.0	-6,669	-6.5
CAFCASS Cymru	458	422	-36	-7.9	-44	-9.6	-36	-7.9	-63	-13.9
<b>Cyfanswm DEL reffeniw</b>	<b>5,867,797</b>	<b>5,867,797</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>-109,409</b>	<b>-1.9</b>	<b>13,768</b>	<b>0.2</b>	<b>-368,645</b>	<b>-6.3</b>
<b>DEL CYFALAF</b>										
Darparu'r GIG	283,310	247,573	-35,737	-12.6	-40,353	-14.2	-78,035	-27.5	-91,382	-32.3
Cyllidebau Canolog lechyd	7,000	6,117	-883	-12.6	-997	-14.2	-1,928	-27.5	-2,258	-32.3
lechyd Cyhoeddus ac Atal	6,200	5,418	-782	-12.6	-883	-14.2	-1,708	-27.5	-2,000	-32.3
Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol	6,502	5,682	-820	-12.6	-926	-14.2	-1,791	-27.5	-2,097	-32.3
<b>Cyfanswm DEL Cyfalaf</b>	<b>303,012</b>	<b>264,790</b>	<b>-38,222</b>	<b>-12.6</b>	<b>-43,159</b>	<b>-14.2</b>	<b>-83,462</b>	<b>-27.5</b>	<b>-97,737</b>	<b>-32.3</b>
<b>Gwariant rheoledig blynyddol - Revenue</b>										
Diffygion y GIG	118,948	118,948	0	0.0	-2,218	-1.9	0	0.0	-7,734	-6.5
<b>Cyfanswm Gwariant rheoledig blynyddol</b>	<b>118,948</b>	<b>118,948</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>-2,218</b>	<b>-1.9</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>-7,734</b>	<b>-6.5</b>
DEL Refeniw	5,867,797	5,867,797	0	0.0	-109,409	-1.9	13,768	0.2	-368,645	-6.3
DEL Cyfalaf	303,012	264,790	-38,222	-12.6	-43,159	-14.2	-83,462	-27.5	-97,737	-32.3
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>6,170,809</b>	<b>6,132,587</b>	<b>-38,222</b>	<b>-0.6</b>	<b>-152,569</b>	<b>-2.5</b>	<b>-69,694</b>	<b>-1.1</b>	<b>-466,382</b>	<b>-7.6</b>
Gwariant rheoledig blynyddol	118,948	118,948	0	0.0	-2,218	-1.9	0	0.0	-7,734	-6.5
<b>Cyfanswm lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<b>6,289,757</b>	<b>6,251,535</b>	<b>-38,222</b>	<b>-0.6</b>	<b>-154,786</b>	<b>-2.5</b>	<b>-69,694</b>	<b>-1.1</b>	<b>-474,116</b>	<b>-7.5</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-121.



## 6. Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Mae [Tabl 9](#) yn rhoi gwybodaeth ynghylch dyraniadau arfaethedig o fewn prif grwp gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Dengys Ffigur [7](#) ac [8](#) y newidiadau o ran canran mewn DEL cyfalaf a refeniw yn 2011-12 a'r newidiadau cronol hyd at 2013-14.

Yn yr adroddiad sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft 2011-12 nodir bod elfennau ariannu ar gyfer grant cynnal refeniw (RSG) addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u diogelu ar 1% (yn nhermau arian parod) yn uwch na newidiadau yn y DEL<sup>29</sup> Cymreig. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi:

The need for the Department and partner organisations to realise real terms efficiencies has been central to the budget setting process and is closely linked to the management of the overall budget gostyngiad and the maintenance of frontline services. The Department has undertaken a line by line evaluation of all budgets over the past 12 months in order to identify savings and opportunities to redeploy resources to priority areas.<sup>30</sup>

Mae'r adroddiad yn parhau drwy nodi:

For 2011-12 the Department is required to find revenue savings of some £76m. While Welsh local government is poised for the enormous challenges ahead, there is little doubt that real term gostyngiads to the local government funding over the next three years will mean that extremely difficult decisions will need to be taken by local authorities when setting their own budgets.<sup>31</sup>

Yn ei bapur i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, dywed y Gweinidog:

The local government revenue and capital elements account for around 97% of the entire SJLG MEG. Providing local government with a fair and equitable settlement during a period of fiscal constraint is therefore a key priority.<sup>32</sup>

Cyhoeddwyd y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro<sup>33</sup> ar 23 Tachwedd 2010. Noda hwn y bydd y grant cynnal refeniw ar gyfer 2011-12 yn cael ei bennu ar £4.0 biliwn, **gostyngiad o 1.4% o ran arian parod o'i gymharu â 2010-11** pan gaiff ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau. Mae hyn yn cyfateb i **ostyngiad o £131.9 miliwn mewn termau real, neu 3.2%**. Mae'r setliad hefyd yn nodi y bydd y ddarpariaeth ar gyfer y Gronfa Gyfalaf Gyffredinol yn 2011-12 yn parhau'n £20 miliwn, fel ag yr oedd ar gyfer 2010-11, **sy'n ostyngiad mewn termau real o 1.9%**.

<sup>29</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 40 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>30</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 43 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>31</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 44 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>32</sup> Papur y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol [HWLG\(3\)-19-10 : Papur 1 : Sesiwn Graffu ar y Gyllideb Ddrafft - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>33</sup> Llywodraeth Cymru, [Provisional Local Government Revenue and Capital Settlement 2011-12](#), 23 Tachwedd 2010 [fel ar 8 Rhag 2010]

### *Cyfanswm DEL*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £86.7 miliwn (1.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £168.3 miliwn (3.8%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £0.6 miliwn; sy'n ostyngiad mewn termau real o £98.9 miliwn (2.3%);
- 2012-13 i 2013-14: cynnydd o £44.9 miliwn (1.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £67 miliwn (1.5%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £42.3 miliwn (1.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £329.6 miliwn (7.4%).

### *DEL Refeniw*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £75.9 miliwn (1.7%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £156.7 miliwn (3.6%);
- 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £2.4 miliwn (0.1%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £95.1 miliwn (2.2%);
- 2012-13 i 2013-14: cynnydd o £49.2 miliwn (1.1%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £61.9 miliwn (1.4);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £24.4 miliwn (0.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £309.3 miliwn (7.0%).

### *DEL Cyfalaf*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £10.8 miliwn (20.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £11.6 miliwn (21.8%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £3.0 miliwn (7.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £3.8 miliwn (9.1%);
- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £4.3 miliwn (10.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £5.2 miliwn (13.1%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £18 miliwn (33.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £20.3 miliwn (38.2%).

## *Newidiadau o fewn y Prif Grwp Gwariant yn 2011-12*

Mae'r adran hon yn nodi'r prif newidiadau ym mhrif grwp gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn y maes rhaglenni gwariant a'r cam gweithredu, fel y nodir yn y tablau dyraniadau gwariant sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>34</sup> Sylwer, lle mae esboniadau wedi'u darparu isod am y newidiadau, mae'r rhain yn deillio o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol<sup>35</sup> neu o ddogfen naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>36</sup>

- Mae'r cynnydd mwyaf o ran arian yn y DEL refeniw (arian parod a chanran) yn y cam Cynhwysiant Ariannol o fewn y maes rhaglen gwariant Cefnogi Pobl a Chymunedau, lle y mae cynnydd o £1.9 miliwn yn nhermau arian parod, gan ddyblu dyraniad 2010-11 a mwy. Mae hwn yn cynrychioli trosglwyddiad o £2 filiwn o'r cam Cynlluniau Budd-dal y Dreth Gyngor o fewn maes rhaglen gwariant y Polisi Trethi Lleol.
- Gwelir y gostyngiad mwyaf o ran arian parod yn y DEL refeniw yn y cam/maes rhaglen gwariant Cymorth Ariannu ar gyfer Llywodraeth Leol. Mae hwn yn ostyngiad o £69.2 miliwn, neu 1.6% yn nhermau arian parod. O'r cam hwn y mae'r rhan fwyaf o arian refeniw ar gyfer llywodraeth leol, yn cynnwys y grant cymorth refeniw, yn deillio.
- Mae'r cynnydd uchaf o ran canran mewn DEL refeniw yn y cam Cynlluniau Budd-dal y Dreth Gyngor o fewn maes rhaglen gwariant Polisi Trethi Lleol sy'n profi gostyngiad cyffredinol o £5 miliwn i ddim. Caiff y gyllideb hon ei lleihau o £3 miliwn a throsglwyddir y £2 filiwn sydd ar ôl i'r cam Cynhwysiant Ariannol fel y nodir uchod.
- Nid oes dim codiadau mewn cysylltiad â DEL cyfalaf. Fodd bynnag, caiff y cam/maes rhaglen gwariant Cymorth Ariannu ar gyfer Llywodraeth Leol, y cam Menter Cymdeithasol o fewn y maes rhaglen gwariant Cefnogi Pobl a Chymunedau, a'r camau Cam-drin Domestig a Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub o fewn maes rhaglen gwariant Cymunedau Diogelach oll eu diogelu ar yr un lefel â 2010-11 yn nhermau arian parod.
- O'r gostyngiadau DEL cyfalaf, y mwyaf arwyddocaol yn nhermau arian parod yw cam Cydnerthu'r Gwasanaethau Tân ac Achub o fewn y maes rhaglen gwariant Cymunedau Diogelach, a gaiff ei leihau o £6.4 miliwn neu 86.5%.
- O fewn y maes rhaglen gwariant Cefnogi Pobl a Chymunedau, caiff y cam cyfalaf Cymunedau yn Gyntaf ei leihau o £1 miliwn i ddim, a'r cam Datblygu

<sup>34</sup> [Dyraniadau Gwariant Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru [fel ar 8 Rhag 2010]


<sup>34</sup> Papur y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol [HWLG\(3\)-19-10 : Papur 1 : Sesiwn Graffu ar y Gyllideb Ddrafft - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>35</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 39 - 46 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>36</sup> [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru, tud 39 - 46 [fel ar 8 Rhag 2010]


Cymunedau ei leihau o £2.8 miliwn, neu 14.9%. Ond nodwyd y bydd adfywio ffigesol drwy'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a Throsglwyddo Asedau Cymunedol yn parhau i gael arian digonol.

**Ffigur 7: Newid o ran canran yn DEL refeniw Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (yn nhermau arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

**Ffigur 8: Newid o ran canran yng nghyfalaf DEL Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (yn nhermau arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12

**Tabl 9: Prif Grwp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol 2010-11 i 2011-12 a newid cronrol yn 2010-11 i 2013-14**

Maes rhaglen gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2011- 12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronrol 2010-11 i 2013- 14	Newid cronrol 2010- 11 i 2013-14	Newid cronrol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronrol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
<b>DEL REFENIW</b>										
Arian Llywodraeth Leol	4,277,597	4,208,381	-69,216	-1.6	-147,684	-3.5	-8,873	-0.2	-286,421	-6.7
Cefnogi Pobl a Chymunedau	59,817	60,543	726	1.2	-403	-0.7	-5,872	-9.8	-9,379	-15.7
Cymunedau Diogelach	13,088	11,851	-1,237	-9.5	-1,458	-11.1	-1,387	-10.6	-2,148	-16.4
Polisi Llywodraeth Leol	38,397	37,552	-845	-2.2	-1,545	-4.0	-1,946	-5.1	-4,316	-11.2
Polisi Trethu Lleol	16,064	10,744	-5,320	-33.1	-5,520	-34.4	-6,070	-37.8	-6,720	-41.8
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	1,883	1,828	-55	-2.9	-89	-4.7	-238	-12.6	-345	-18.3
<b>Cyfanswm DEL refferiw</b>	<b>4,406,846</b>	<b>4,330,899</b>	<b>-75,947</b>	<b>-1.7</b>	<b>-156,700</b>	<b>-3.6</b>	<b>-24,386</b>	<b>-0.6</b>	<b>-309,329</b>	<b>-7.0</b>
<b>DEL CYFALAF</b>										
Arian Llywodraeth Leol	20,000	20,000	0	0.0	-373	-1.9	0	0.0	-1,300	-6.5
Cefnogi Pobl a Chymunedau	21,128	17,280	-3,848	-18.2	-4,170	-19.7	-10,178	-48.2	-10,890	-51.5
Cymunedau Diogelach	9,467	3,039	-6,428	-67.9	-6,485	-68.5	-6,828	-72.1	-7,000	-73.9
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	2,500	2,000	-500	-20.0	-537	-21.5	-1,000	-40.0	-1,098	-43.9
<b>Cyfanswm DEL cyfalaf</b>	<b>53,095</b>	<b>42,319</b>	<b>-10,776</b>	<b>-20.3</b>	<b>-11,565</b>	<b>-21.8</b>	<b>-18,006</b>	<b>-33.9</b>	<b>-20,287</b>	<b>-38.2</b>
<b>Gwariant rheoledig blynyddol - Refeniw</b>										
Arian Llywodraeth Leol	11,677	13,583	1,906	16.3	1,653	14.2	1,906	16.3	1,023	8.8
<b>Cyfanswm gwariant rheoledig blynyddol</b>	<b>11,677</b>	<b>13,583</b>	<b>1,906</b>	<b>16.3</b>	<b>1,653</b>	<b>14.2</b>	<b>1,906</b>	<b>16.3</b>	<b>1,023</b>	<b>8.8</b>
DEL Refeniw	4,406,846	4,330,899	-75,947	-1.7	-156,700	-3.6	-24,386	-0.6	-309,329	-7.0
DEL Cyfalaf	53,095	42,319	-10,776	-20.3	-11,565	-21.8	-18,006	-33.9	-20,287	-38.2
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>4,459,941</b>	<b>4,373,218</b>	<b>-86,723</b>	<b>-1.9</b>	<b>-168,265</b>	<b>-3.8</b>	<b>-42,392</b>	<b>-1.0</b>	<b>-329,616</b>	<b>-7.4</b>
Gwariant rheoledig blynyddol	11,677	13,583	1,906	16.3	1,653	14.2	1,906	16.3	1,023	8.8
<b>Cyfanswm Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol</b>	<b>4,471,618</b>	<b>4,386,801</b>	<b>-84,817</b>	<b>-1.9</b>	<b>-166,612</b>	<b>-3.7</b>	<b>-40,486</b>	<b>-0.9</b>	<b>-328,594</b>	<b>-7.3</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

## 7. Yr Economi a Thrafnidiaeth

Mae [Tabl 10](#) yn rhoi gwybodaeth am ddyraniadau arfaethedig o fewn prif grwp gwariant Yr Economi a Thrafnidiaeth. Dengys ffigur [9](#) a [10](#) y newidiadau o ran canran mewn DEL refeniw a chyfalaf yn 2011-12 a'r newidiadau cronol hyd at 2013-14.

Dywed yr adroddiad sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft:

In future the Department's resources will be targeted at tackling wide systemic issues within the Welsh Economy - investing in infrastructure, research & development and improving the conditions within which businesses operate. The new policy sees a fundamental shift away from direct and generic support for businesses to a focus on creating the right environment for businesses to succeed.

The Departments new direction for economic development is organised around five priorities:

- Investing in high quality and sustainable infrastructure;
- Making Wales a more attractive place to do business;
- Broadening and deepening the skills base;
- Encouraging Innovation;
- Targeting the business support we offer.

Our commitment to **safeguard frontline services** will be supported by the transformation of the way we will support the Welsh economy.<sup>37</sup>

Hefyd noda'r adroddiad fanylion am ddull yr adran o ddarparu mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon, yn cynnwys cymorth ad-daladwy, cymorth a gaiff ei gyfeirio'n well, a rhannu arbenigedd.<sup>38</sup>

Yn ei bapur i'r Pwyllgor Menter a Dysgu,<sup>39</sup> dywed y Gweinidog, o ganlyniad i'r polisi Adnewyddu'r Economi mae **strwythur a chyflwyniad cyllideb yr adran wedi newid** (ac eithrio trafndiaeth). Mae'r atodiad i bapur y Gweinidog yn darparu ailddatganiad ar y strwythur newydd o ffigurau sylfaen 2010-11.<sup>40</sup>

### *Cyfanswm DEL*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £70.7 miliwn (7.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £87.5 miliwn (9.0%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £27.2 miliwn (3.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £46.9 miliwn (5.2%);

<sup>37</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) tud 47 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>38</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) tud 50-51 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>39</sup> Papur y Pwyllgor Menter a Dysgu [EL\(3\)-24-10 : Papur 1 : Craffu ar y gyllideb - y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>40</sup> Papur y Pwyllgor Menter a Dysgu [EL\(3\)-24-10 : Papur 1 Atodiad 1 : Craffu ar y gyllideb - y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £28.9 miliwn (3.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £50.4 miliwn (5.8%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £126.8 miliwn (13.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £181.9 miliwn (18.7%).

### *DEL refeniw*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £7.6 miliwn (1.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £18.6 miliwn (3.1%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £5.3 miliwn (0.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £18.5 miliwn (3.1%);
- 2012-13 i 2013-14: cynnydd o £2.7 miliwn (0.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £12.2 miliwn (2.1%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £10.3 miliwn (1.7%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £48.4 miliwn (8.1%).

### *DEL Cyfalaf*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £63.0 miliwn (16.8%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £68.9 miliwn (18.3%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £21.9 miliwn (7.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £28.4 miliwn (9.1%);
- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £31.6 miliwn (10.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £38.2 miliwn (13.1%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £116.6 miliwn (31.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £133.4 miliwn (35.5%).

### *Newidiadau o fewn y prif grwp gwariant yn 2011-12*

Mae'r adran hon yn nodi'r prif newidiadau ym mhrif grwp gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth yn y maes rhaglenni gwariant a'r cam gweithredu, fel y nodir yn y tablau dyraniadau gwariant sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>41</sup> Sylwer, lle mae esboniadau wedi'u darparu isod am y newidiadau, maent yn deillio o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Dysgu<sup>42</sup> neu ddogfen naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>43</sup>

- Mae'r cynnydd mwyaf o ran arian yn y DEL refeniw (arian parod a chanran) yn y cam Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) o fewn y maes rhaglen gwariant Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a

<sup>41</sup> [Dyraniadau Gwariant Cyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>42</sup> Papur y Pwyllgor Menter a Dysgu [EL\(3\)-24-10 : Papur 1 : Budget scrutiny - Minister for Economy and Transport](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>43</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) tud 47-52 [fel ar 8 Rhag 2010]

Chenedlaethol) lle y mae cynnydd o £6.3 miliwn, neu 34.2% yn nhermau arian parod.

- Mae'r gostyngiad mwyaf o ran arian yn y DEL refeniw yn y cam Datblygu Teithio Cynaliadwy o fewn y maes rhaglen gwariant Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol). Mae hwn yn ostyngiad o £8.5 miliwn, neu 9.1% yn nhermau arian, Dywedir fod hwn yn adlewyrchu gostyngiadau yn yr arian i gefnogi gwasanaethau bwsiau a'r grant gwasanaethau trafndiaeth lleol; mae'r gostyngiadau hyn yn debygol o effeithio ar brisiau teithio, gan felly gynyddu'r gofyn yn y gyllideb am brisiau rhatach yn y blynyddoedd nesaf.
- Mae'r cynnydd uchaf o ran canran yn y DEL refeniw yn y cam/maes rhaglen gwariant Gwella Diogelwch y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd lle y mae gostyngiad cyffredinol o 63.6% neu £5.3 miliwn yn nhermau arian parod. Dywedir fod hwn yn adlewyrchu lefel lai o arian ar gyfer Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru a grantiau i Awdurdodau Lleol. Dywedir y bydd amcanion diogelwch y ffyrdd hefyd yn parhau i gael eu cyflawni drwy fuddsoddi yn y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.
- Mae'r cynnydd mwyaf yn y DEL cyfalaf yn y cam/maes rhaglen gwariant Gwella Cysylltedd Rhyngwladol. Mae hwn yn gynnydd o £20.4 miliwn, neu 52.7% yn nhermau arian parod. Nodir fod hwn ar gyfer camau gwella mawr i'r rhwydwaith ffyrdd ac arian ar gyfer camau gwella ardal yr M4 a'r A465. Dywedir hefyd fod cynlluniau ffyrdd eraill yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac o bosibl y byddant yn cael eu gohirio neu ail-edrychir ar eu manylion.
- Mae'r gostyngiad mwyaf o ran arian yn y DEL cyfalaf yn y cam Gwella a Chynnal Seilwaith Ffyrdd Lleol o fewn maes rhaglen gwariant Trafnidiaeth Integredig (Lleol). Gwel hyn ostyngiad o £43.6 miliwn, neu 63.9% yn nhermau arian parod. Nodir hwn er mwyn adlewyrchu lleihad yn y grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith cynnal ffyrdd sydd wedi cronni'n lleol a'r gofynion i leihau'r arian i gefnogi cynlluniau ffyrdd lleol a darparu cynllun trafndiaeth rhanbarthol.
- Mae'r gostyngiad mwyaf o ran canran yn y DEL cyfalaf yn y cam/maes rhaglen gwariant Digwyddiadau Mawr, lle y mae gostyngiad o £0.4 miliwn i ddim. Dywedir bod hyn oherwydd bod cystadelaeth y Cwpan Ryder bellach wedi'i chynnal.
- Mewn cysylltiad â gostyngiadau cyfalaf trafndiaeth, dywedir nad oes modd i nifer o gynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd fynd ymlaen ar yr amserlenni a bennwyd yn flaenorol ac mae hyn yn cael ei adolygu, ac efallai y bydd angen gohirio neu ail-lunio rhai cynlluniau.




**Tabl 10: Prif Grwp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth 2010-11 i 2011-12 a newid cronol 2010-11 i 2013-14**

Maes rhaglen gwariant	Cyllideb Atodol	Cynlluniau	Newid 2010-11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronol 2010-11 i 2013-14	Newid cronol 2010-11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	2010-11	Newydd Cyllideb Ddrafft 2011-12								
	£000	£000	£000	carran	£000	carran	£000	carran	£000	carran
<b>DEL REFENIW</b>										
Sectorau a Busnes	48,145	47,990	-155	-0.3	-1,050	-2.2	-2,228	-4.6	-5,213	-10.8
Annog Arloesi	3,162	2,162	-1,000	-31.6	-1,040	-32.9	-1,018	-32.2	-1,157	-36.6
Arian Rhanbarthol	0	2,005	2,005	..	1,968	..	2,005	..	1,875	..
Cyllid Cymru	5,102	5,102	0	0.0	-95	-1.9	-1,000	-19.6	-1,267	-24.8
Digwyddiadau Mawr	6,438	3,930	-2,508	-39.0	-2,581	-40.1	-2,541	-39.5	-2,794	-43.4
Marchnata	3,090	2,840	-250	-8.1	-303	-9.8	-275	-8.9	-458	-14.8
Seilwaith	20,585	20,470	-115	-0.6	-497	-2.4	2,986	14.5	1,453	7.1
Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	262,239	265,418	3,179	1.2	-1,770	-0.7	-4,523	-1.7	-21,279	-8.1
Gwella Cysylltedd Rhyngwladol	140,561	145,681	5,120	3.6	2,404	1.7	4,447	3.2	-4,981	-3.5
Gwlla Trafnidiaeth Integredig (Leol)	93,006	84,527	-8,479	-9.1	-10,055	-10.8	-1,622	-1.7	-7,564	-8.1
Gwella Diogelwch y Ffordd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd	8,397	3,056	-5,341	-63.6	-5,398	-64.3	-6,341	-75.5	-6,475	-77.1
Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol	5,243	5,145	-98	-1.9	-194	-3.7	-143	-2.7	-475	-9.1
WEFO	1,522	1,522	0	0.0	-28	-1.9	0	0.0	-99	-6.5
<b>Cyfanswm refeniw</b>	<b>597,490</b>	<b>589,848</b>	<b>-7,642</b>	<b>-1.3</b>	<b>-18,640</b>	<b>-3.1</b>	<b>-10,253</b>	<b>-1.7</b>	<b>-48,435</b>	<b>-8.1</b>
<b>DEL CYFALAF</b>										
Sectorau a Busnes	71,045	69,129	-1,916	-2.7	-3,205	-4.5	-27,334	-38.5	-30,176	-42.5
Annog Arloesi	1,457	433	-1,024	-70.3	-1,032	-70.8	-1,157	-79.4	-1,177	-80.7
Arian Rhanbarthol	0	995	995	..	976	..	995	..	930	..
Cyllid Cymru	1,500	1,500	0	0.0	-28	-1.9	0	0.0	-98	-6.5
Digwyddiadau Mawr	400	0	-400	-100.0	-400	-100.0	-400	-100.0	-400	-100.0
Seilwaith	19,607	6,291	-13,316	-67.9	-13,433	-68.5	-1,151	-5.9	-2,351	-12.0
Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	103,834	83,674	-20,160	-19.4	-21,720	-20.9	-47,984	-46.2	-51,615	-49.7
Gwella Cysylltedd Rhyngwladol	38,683	59,088	20,405	52.7	19,303	49.9	45,153	100.0	39,702	100.0
Gwella Trafnidiaeth Integredig (Leol)	120,917	80,713	-40,204	-33.2	-41,709	-34.5	-77,176	-63.8	-80,020	-66.2
Gwella Diogelwch y Ffordd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd	18,257	10,922	-7,335	-40.2	-7,539	-41.3	-7,335	-40.2	-8,045	-44.1
Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol	540	449	-91	-16.9	-99	-18.4	-168	-31.1	-192	-35.6
<b>Cyfanswm capital</b>	<b>376,240</b>	<b>313,194</b>	<b>-63,046</b>	<b>-16.8</b>	<b>-68,886</b>	<b>-18.3</b>	<b>-116,557</b>	<b>-31.0</b>	<b>-133,441</b>	<b>-35.5</b>
<b>Gwariant rheoledig blynyddol - Refeniw</b>										
Datblygu Seilwaith Cynaliadwy ar gyfer Datblygu Economaidd a meysydd eraill	41,402	41,402	0	0.0	-772	-1.9	0	0.0	-2,692	-6.5
<b>Cyfanswm gwariant rheoledig blynyddol</b>	<b>41,402</b>	<b>41,402</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>-772</b>	<b>-1.9</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>-2,692</b>	<b>-6.5</b>
DEL Refeniw	597,490	589,848	-7,642	-1.3	-18,640	-3.1	-10,253	-1.7	-48,435	-8.1
DEL Cyfalaf	376,240	313,194	-63,046	-16.8	-68,886	-18.3	-116,557	-31.0	-133,441	-35.5
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>973,730</b>	<b>903,042</b>	<b>-70,688</b>	<b>-7.3</b>	<b>-87,526</b>	<b>-9.0</b>	<b>-126,810</b>	<b>-13.0</b>	<b>-181,876</b>	<b>-18.7</b>
Gwariant Rheoledig Blynyddol	41,402	41,402	0	0.0	-772	-1.9	0	0.0	-2,692	-6.5
<b>Cyfanswm Economi a Thrafnidiaeth</b>	<b>1,015,132</b>	<b>944,444</b>	<b>-70,688</b>	<b>-7.0</b>	<b>-88,298</b>	<b>-8.7</b>	<b>-126,810</b>	<b>-12.5</b>	<b>-184,568</b>	<b>-18.2</b>


Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

**Ffigur 9: Newid o ran canran mewn DEL referniw Economi a Thrafnidiaeth (yn nhermau arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12

**Ffigur 10: Newid o ran canran mewn DEL cyfalaf yn adran yr Economi a Thrafnidiaeth (yn nhermau arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

## 8. Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mae [Tabl 11](#) yn rhoi gwybodaeth am ddyraniadau arfaethedig o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (CELLS) MEG. Dengys Ffigur [11](#) a [12](#) y newidiadau o ran canran yn y DEL cyfalaf a refeniw yn 2011-12 a'r newidiadau cronol hyd at 2013-14.

Dywed yr adroddiad sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft:

This budget reflects the positive commitment to increase funding for schools and skills, and to protect those frontline services which impact directly on children. The budget will enable these services to be extended through the application of increased inward investment over the next three years.<sup>44</sup>

Noda papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Dysgu fod:

...some budgets have been re-prioritised to ensure that funding is available to support the full roll out of the foundation phase, to increase funding for post 16 learners with special educational needs, to match demands for free primary school breakfasts and to reflect the increases in students within Higher Education.<sup>45</sup>

Mae papur y Gweinidog yn parhau drwy nodi fod:

The need for the department and partner organisations to realise real terms efficiencies alongside budget savings has been central to the budget setting process and is closely linked to the management of the overall budget gostyngiad and the maintenance of front line services.<sup>46</sup>

### *Cyfanswm DEL*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £31.2 miliwn (1.7%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £65.7 miliwn (3.5%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £3.5 miliwn (0.2%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £45.0 miliwn (2.4%);
- 2012-13 i 2013-14: cynnydd o £5.7 miliwn (0.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £41.1 miliwn (2.2%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £29.0 miliwn (1.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £149.2 miliwn (7.9%).

### *DEL Refeniw*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £21.1 miliwn (1.2%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £52.3 miliwn (3.1%);
- 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £8.6 miliwn (0.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £29.2 miliwn (1.7%);

<sup>44</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) tud 53 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>45</sup> Papur y Pwyllgor Menter a Dysgu [EL\(3\)-24-10 : Papur 2 Dogfen 2 : Budget scrutiny - Minister for Children, Education, Lifelong Learning and the Deputy / Minister for Science, Innovation and Skills](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>46</sup> Papur y Pwyllgor Menter a Dysgu [EL\(3\)-24-10 : Papur 2 Dogfen 2 : Budget scrutiny - Minister for Children, Education, Lifelong Learning and the Deputy / Minister for Science, Innovation and Skills](#) [fel ar 8 Rhag 2010]

- 2012-13 i 2013-14: increase of £23.3 miliwn (1.4%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £20.0 miliwn (1.2%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae cynnydd cronol o £10.7 miliwn (0.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £100.1 miliwn (5.9%).

### *DEL Cyfalaf*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £10.1 miliwn (5.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £13.4 miliwn (7.3%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £12.1 miliwn (7.0%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £15.7 miliwn (9.1%);
- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £17.5 miliwn (10.9%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £21.2 miliwn (13.1%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £39.8 miliwn (21.7%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £49.1 miliwn (26.8%).

### *Newidiadau o fewn y Prif Grwp Gwariant yn 2011-12*

Mae'r adran hon yn nodi'r prif newidiadau o fewn prif grwp gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn y maes rhaglenni gwariant a'r cam gweithredu, fel y nodir yn y tablau dyraniadau gwariant sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>47</sup> Sylwer, lle mae esboniadau wedi'u darparu isod am y newidiadau, maent yn deillio o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Dysgu neu ddogfen naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12.<sup>48</sup>

- Mae'r cynnydd mwyaf o ran arian yn y DEL refeniw yn y cam Cwricwlwm ac Asesu (yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen) o fewn y maes rhaglen gwariant Gwella Cymwysterau, Cwricwlwm a Dysgu, lle y mae cynnydd o £11.7 miliwn, neu 13.1% yn nhermau arian parod. Nodir fod hwn ar gyfer parhau i roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith.
- Mae'r cynnydd mwyaf o ran canran yn y DEL refeniw yn y cam Cymorth i Ddysgwyr o fewn y maes rhaglen gwariant Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion, lle y mae cynnydd o £9.2 miliwn, neu 14.4% yn nhermau arian. Mae £2.7 miliwn o hwn mewn cysylltiad â darparu brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd meddir, a £6.5 miliwn ar gyfer darparu ar gyfer Addysg Anghenion Arbennig i rai dros 16 oed.
- Gwelir y gostyngiad mwyaf o ran arian parod y DEL refeniw yn y cam Addysg Uwch o fewn y maes rhaglen gwariant Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes. Gwelir yma ostyngiad o £36.8 miliwn, neu 8.5% yn nhermau arian parod. Nodir y bydd y gostyngiad arfaethedig yn hwyluso'r ymrwymiad statudol i

<sup>47</sup> [Dyraniadau Gwariant Cyllideb Ddrafft 2011-12](#) Llywodraeth Cymru [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>48</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) tud 53-59 [fel ar 8 Rhag 2010]

ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch, a bod y gostyngiadau'n cynnwys arbedion effeithlonrwydd y disgwylir y byddant yn cael eu darparu drwy weithredu'r strategaeth [Er Mwyn ein Dyfodol](#) . Nodir hefyd bod yr ymrwymiad i ddatblygu Prifysgol Blaenau'r Cymoedd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg Ffederal gynt) yn parhau'n flaenoriaeth sydd i'w hariannu o'r gyllideb hon.


- Mae'r gostyngiad mwyaf o ran canran y DEL refeniw yn y cam Mesurau Economaidd - Diweithdra o fewn y maes rhaglen gwariant Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes lle y mae gostyngiad cyffredinol o £0.7 miliwn i ddim.
- Mae'r unig gynnydd mewn DEL cyfalaf yn y cam Arian Cyfalaf ym maes rhaglen gwariant Gwella Busnes a Buddsoddi mewn Adnoddau. Mae yma gynnydd o £16.7 miliwn, neu 10.7% yn nhermau arian parod.
- Dywedir y bydd defnyddio cronfa gyfalaf strategol fesul prosiect yn galluogi i arian cyfalaf gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol ac yn hwyluso buddsoddi yn y meysydd blaenllaw. O ganlyniad i hyn mae cyllidebau cyfalaf eraill Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi'u gostwng i ddim. Golyga'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb cyfalaf y bydd angen i raglenni gael eu darparu dros gyfnod hirach o amser a threfnir y buddsoddiad hwnnw ar sail blaenoriaeth.

Tabl 11: Prif Grwp Gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 2010-11 i 2011-12 a newid cronol 2010-11 i 2013-14

Maes rhaglen gwariant	Cyllideb Atodol 2010-11	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2011- 12	Newid 2010- 11 i 11-12	Newid 2010-11 i 11-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12	Newid cronol 2010-11 i 2013- 14	Newid cronol 2010- 11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14	Newid cronol mewn termau real 2010-11 i 2013-14
	£000	£000	£000	canran	£000	canran	£000	canran	£000	canran
<b>DEL REFENIW</b>										
Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion	214,874	223,986	9,112	4.2	4,936	2.3	27,225	12.7	11,484	5.3
Cymwysterau, Cwricwlwm a Gwella Dysgu	144,109	155,914	11,805	8.2	8,898	6.2	24,302	16.9	13,352	9.3
Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes	1,054,033	1,006,644	-47,389	-4.5	-66,159	-6.3	-47,430	-4.5	-112,878	-10.7
Buddsoddiad Gwella Busnes ac Adnoddau	281,535	286,920	5,385	1.9	35	0.0	6,638	2.4	-12,099	-4.3
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	<b>1,694,551</b>	<b>1,673,464</b>	<b>-21,087</b>	<b>-1.2</b>	<b>-52,290</b>	<b>-3.1</b>	<b>10,735</b>	<b>0.6</b>	<b>-100,141</b>	<b>-5.9</b>
<b>DEL CYFALAF</b>										
Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion	7,406	0	-7,406	-100.0	-7,406	-100.0	-7,406	-100.0	-7,406	-100.0
Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes	19,436	0	-19,436	-100.0	-19,436	-100.0	-19,436	-100.0	-19,436	-100.0
Buddsoddiad Gwella Busnes ac Adnoddau	156,650	173,353	16,703	10.7	13,471	8.6	-12,916	-8.2	-22,261	-14.2
<b>Cyfanswm Cyfalaf</b>	<b>183,492</b>	<b>173,353</b>	<b>-10,139</b>	<b>-5.5</b>	<b>-13,371</b>	<b>-7.3</b>	<b>-39,758</b>	<b>-21.7</b>	<b>-49,103</b>	<b>-26.8</b>
<b>Gwariant rheoledig blynyddol - Cyfalaf</b>										
Buddsodiad Gwella Busnes ac Adnoddau	203,398	217,656	14,258	7.0	10,200	5.0	23,118	11.4	8,390	4.1
<b>Cyfanswm gwariant rheoledig blynyddol</b>	<b>203,398</b>	<b>217,656</b>	<b>14,258</b>	<b>7.0</b>	<b>10,200</b>	<b>5.0</b>	<b>23,118</b>	<b>11.4</b>	<b>8,390</b>	<b>4.1</b>
DEL Refeniw	1,694,551	1,673,464	-21,087	-1.2	-52,290	-3.1	10,735	0.6	-100,141	-5.9
DEL Cyfalaf	183,492	173,353	-10,139	-5.5	-13,371	-7.3	-39,758	-21.7	-49,103	-26.8
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>1,878,043</b>	<b>1,846,817</b>	<b>-31,226</b>	<b>-1.7</b>	<b>-65,661</b>	<b>-3.5</b>	<b>-29,023</b>	<b>-1.5</b>	<b>-149,244</b>	<b>-7.9</b>
Gwariant rheoledig blynyddol	203,398	217,656	14,258	7.0	10,200	5.0	23,118	11.4	8,390	4.1
<b>Cyfanswm Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau</b>	<b>2,081,441</b>	<b>2,064,473</b>	<b>-16,968</b>	<b>-0.8</b>	<b>-55,462</b>	<b>-2.7</b>	<b>-5,905</b>	<b>-0.3</b>	<b>-140,854</b>	<b>-6.8</b>


Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

**Ffigur 11: Newid o ran canran mewn DEL referniw Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (o ran arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12.

**Figure 12: Newid o ran canran yng Nghyfalaf DEL Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (o ran arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2011-12

## 9. Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Darpara [Tabl 12](#) wybodaeth am y dyraniadau arfaethedig o fewn Prif Grwp Gwariant yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Dengys Ffigur [13](#) a Ffigur [14](#) ganrannau newidiadau yn y DEL refeniw a chyfalaf yn 2011-12 a'r newidiadau cronol hyd at 2013-14.

Noda'r Adroddiad sy'n cydfynd â'r Gyllideb Ddrafft fod:

This budget reflects our commitment to sustainable development and equality. Despite being in a time of reducing budgets we are protecting the Major Repairs Allowance, which funds vital repairs for tenants in council housing, and remain committed to achieving the Welsh Housing Quality Standard. We will target support to housing services for vulnerable people and have made Supporting People a priority area.

Rydym yn gwarchod y bobl mwyaf agored i niwed drwy'r rhaglen Defnyddio Ynni'n Effeithiol a Thlodi Tanwydd sy'n ceisio gwella sefyllfa tlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon ac rydym yn cynnal lefelau ariannu 2010-11 y flwyddyn nesaf. Byddwn hefyd yn darparu lefel warchodaeth sylweddol i'n rhaglen rheoli risg llifogydd a bu ystyriaethau ynghylch newid hinsawdd yn ganolog yn y broses o osod ein cyllideb.<sup>49</sup>

Mae'r adroddiad yn parhau drwy nodi:

We are working through a review of options available to us for the future of environmental delivery in Wales. Our delivery bodies have been working closely together to examine a range of options from sharing services through to the possibility of a new environmental body for Wales. Efficiency savings via some of the options being considered should deliver savings that will, at least, provide some protection to frontline services delivered by these bodies.<sup>50</sup>

O bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd gwelir fod:

The MEG's capital budget was reduced by 12.5% and its revenue budget was reduced by 2.2%. The capital gostyngiad is masked by the reinstatement of £40 miliwn into the housing for affordable homes, which was brought forward from 2010-11 into earlier years to tackle the effects of the recession. When this is taken into account the capital gostyngiad is 20%.<sup>51</sup>

### *Cyfanswm DEL*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £60.8 miliwn (7.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £74.6 miliwn (9.3%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £26.2 miliwn (3.5%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £42.3 miliwn (5.7%);

<sup>49</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) tud 60 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>50</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Ddrafft 2011-12](#) tud 64 [fel ar 8 Rhag 2010]

<sup>51</sup> Papur y Pwyllgor Cynaliadwyedd [SC\(3\)-23-10 : Papur 1 : Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru - Llywodraeth Cynulliad Cymru](#) [fel ar 8 Rhag 2010]



- 2012-13 i 2013-14: gostyngiad o £36.6 miliwn (5.1%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £53.8 miliwn (7.5%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £123.6 miliwn (15.4%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £167.8 miliwn (20.9%).

### *DEL Refeniw*

- 2010-11 i 2011-12: gostyngiad o £8.3 miliwn (2.2%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £15.3 miliwn (4.0%);
- 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £5.9 miliwn (1.6%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £14.2 miliwn (3.8%);
- 2012-13 i 2013-14: cynnydd o £1.6 miliwn (0.4%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £7.8 miliwn (2.1%);
- Dros gyfnod y gyllideb mae gostyngiad cronol o £12.7 miliwn (3.3%); sy'n ostyngiad mewn termau real o £36.8 miliwn (9.6%).

### *DEL Cyfalaf*

